Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymdrin â pharatoi cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr, yn ogystal â storio’n gywir yr eitemau hynny na fyddant yn cael eu defnyddio ar unwaith. Mae’n ymdrin hefyd â phobi cynhyrchion a’u ffrio’n ddwfn, fel bisgedi a sgonau. At hynny mae’n disgrifio pwysigrwydd cyflwyno cynhyrchion sydd wedi’u coginio yn unol â safonau’r sefydliad.

Mae’r safon hon yn canolbwyntio ar y wybodaeth a sgiliau technegol mae eu hangen i gynhyrchu cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr. Fodd bynnag, dylid ei hasesu yng nghyd-destun ehangach arferion gweithio diogel a hylan. Argymhellir cyfeirio at y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol canlynol, gan eu dewis fel sy’n briodol i’r swydd a’r sefydliad, ar y cyd â’r sgiliau a gwybodaeth technegol ar gyfer y safon:

•Cynnal diogelwch bwyd sylfaenol ym maes arlwyo

•Cynnal diogelwch bwyd yn y gegin
•Rhoi cyngor sylfaenol ar alergenau i gwsmeriaid
•Lleihau risg alergenau i gwsmeriaid i’r eithaf

Pan fyddwch wedi cwblhau’r safon hon byddwch yn gallu dangos eich dealltwriaeth o’r canlynol, a’ch gallu i’w gyflawni:

•Cynhyrchu cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. Nodi nifer y dognau mae eu hangen i'w gweini
2. Sicrhau bod y cynhwysion o'r math, ansawdd a maint mae eu hangen
3. Paratoi'r cynhwysion gan ddefnyddio'r dulliau paratoi sylfaenol priodol i fodloni gofynion ansawdd a gofynion y sefydliad
4. Labelu unrhyw gynhwysion sydd wedi'u paratoi'n glir ac yn gywir, a'u storio yn unol â gofynion cyfreithiol
5. Sicrhau bod cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr o'r math, ansawdd a maint mae eu hangen
6. Cyfuno'r cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr â chynhwysion eraill
7. Coginio cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr gan ddefnyddio'r dulliau coginio sylfaenol priodol i fodloni gofynion ansawdd a gofynion y sefydliad
8. Defnyddio dulliau gorffennu sylfaenol i fodloni gofynion ansawdd a gofynion y sefydliad
9. Labelu unrhyw gynhwysion sydd wedi'u paratoi yn glir ac yn gywir, a'u storio yn unol â gofynion cyfreithiol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. Pam y mae'n hanfodol i ffyrnau fod ar y tymheredd cywir cyn dechrau pobi
2. Pam y mae amser a thymheredd yn bwysig wrth baratoi, coginio a storio cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr sylfaenol
3. Pam y dylai cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr sylfaenol wedi'u paratoi gael eu storio ar y tymheredd diogel gofynnol cyn eu coginio
4. Y pwyntiau ansawdd i chwilio amdanynt mewn cynhwysion cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr sylfaenol
5. Y dulliau paratoi a choginio ar gyfer cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr sylfaenol
6. Sut i adnabod pryd mae gwahanol gynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr wedi'u coginio yn unol â gofynion y saig
7. Sut i gyflwyno cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr
8. Pa broblemau a all godi wrth baratoi a choginio cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr, ac i bwy y byddech yn rhoi gwybod am y broblem
9. Sut i sicrhau bod gan y cynhyrchion yr aroglau, ansawdd a thymheredd cywir
10. Pam y mae'n bwysig dilyn cyfarwyddiadau'r saig a defnyddio'r cyfarpar cywir wrth ddogni
11. Opsiynau bwyta'n iach wrth baratoi, coginio a gorffennu cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr sylfaenol

Cwmpas/Ystod

1. Cynhwysion

1.1 crwst wedi'i baratoi ymlaen llaw
1.2 cymysgeddau cacen/sbwng
1.3 cymysgedd sgonau
1.4 cymysgedd toes
1.5 cymysgedd bisgedi
1.6 cymysgedd cynnyrch tun pobi mawr

2. Dulliau paratoi sylfaenol

2.1 cymysgu
2.2 tylino
2.3 iro
2.4 hufennu/curo
2.5 leinio
2.6 toddi
2.7 sgleinio
2.8 dogni
2.9 rholio
2.10 siapio
2.11 torri

- Cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr

3.1 cynhyrchion crwst
3.2 cacennau/sbyngau
3.3 sgonau
3.4 cynhyrchion toes
3.5 bisgedi
3.6 cynhyrchion tun pobi mawr

- Dulliau coginio sylfaenol

4.1 pobi
4.2 ffrio'n ddwfn

5.Dulliau gorffennu sylfaenol

5.1 taenellu / ysgeintio
5.2 llenwi
5.3 peipio
5.4 taenu / caenu
5.5 sgleinio
5.6 trimio
5.7 dogni

Cynhyrchu cynhyrchion blawd, toes a thun pobi mawr

Datblygwyd gan	People 1st
Dyddiad cymeradwyo	01 Chwef 2016
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Maw 2021
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	People 1st
RCU gwreiddiol	PPL2PR16
Galwedigaethau perthnasol	Pen-cogydd, Cogydd, Cynorthwy-ydd cegin
Cyfres/Set	Cynhyrchu a Choginio Bwyd
Geiriau Allweddol	blawd, toes, tun pobi mawr